Trydan Gwyrdd Cymru

Ynni i ffynnu. Power to prosper.




Mae **Trydan Gwyrdd Cymru** yn ddatblygwr ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru. Cenhadaeth y cwmni yw datgloi potensial ynni adnewyddadwy Cymru, a chyflwyno buddion i'n cymdeithas, ein hamgylchedd a'n heconomi, i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol.

# Croeso



**Adam Dempsey**
Rheolydd prosiect Clocaenog Dau

***Helo! Hoffwn ddiolch i bawb a gymrodd ran yn ein rownd gyntaf o gyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd ddiwedd 2025 i rannu gwybodaeth am gynlluniau dechreuol Fferm Wynt arfaethedig Clocaenog Dau.***

Bydd pawb a welodd fanylion yr ystyriaethau amgylcheddol wrth gynllunio fferm wynt yn gwerthfawrogi mor gymhleth yw'r broses.

Rhaid ystyried y gofynion technegol hefyd – er enghraifft pa fath o dyrbinau fydd yn cynhyrchu mwyaf o drydan o gofio'r topograffi a'r patrymau gwynt lleol. Ac mae'n rhaid ystyried ffactorau economaidd er mwyn gofalu fod y prosiect yn hyfyw ac yn creu'r enillion mwyaf i Gymru, tra'n gweithredu er budd pobl a byd natur yn lleol.

Gan fod hyn oll mor gymhleth, rhaid i'r drefn gynllunio fod yn broses esblygol lle ceir mewnbwn gan bob math o arbenigwyr – yn bobl leol ac arbenigwyr amgylcheddol a thechnegol.

Rydym yn gofyn i arbenigwyr perthnasol a lleisiau lleol fynegi barn a'n cynghori ynghylch pa ystyriaethau y dylid eu cadw mewn cof.

Byddwn yn pwyso a mesur eu harweiniad a'u barn ac yn ystyried sut y gall ein cynlluniau ymateb i'w sylwadau, er mwyn gwella'r dyluniad. Fe rannwn y wybodaeth am unrhyw newidiadau ac yna gofyn am ymateb ac adborth pellach. Os nad yw'n bosibl gwneud newidiadau penodol, byddwn yn egluro pam.

Mae llawer ohonoch wedi gofyn am ddata yr ydym yn dal i'w gasglu. Cyflwynwyd adroddiad cwmpasu (scoping report), sy'n rhestru'r astudiaethau a'r dulliau a ddefnyddiwn i gasglu data am yr ardal fel ag y mae ar hyn o bryd, ynghyd â modelu unrhyw newidiadau y gallai'r prosiect eu creu.

Disgwyliwn dderbyn ymateb yn nes ymlaen eleni a fydd yn cynnwys arweiniad a chyngor y rhai y gofynnwyd eu barn yn ôl y gofynion statudol. Cyrff ydyw'r rhain y mae ganddynt ddyletswydd gyfreithiol i warchod agweddau ar ein tir a bywydau, gan sicrhau y symudir ymlaen â datblygiadau priodol yn unol â'n prosesau democrataidd.

Yn y cyfamser, nid yw ein gwaith yn aros yn ei unfan. Byddwn yn cynnal rhai arolygon adar, mamaliaid ac infertebratau; siaradwn â thirfeddianwyr sy'n ffinio â'r prosiect i gytuno ar hawliau mynediad; a siaradwn hefyd â chyrff amgylcheddol eraill, yn cynnwys Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Clocaenog, i ddysgu oddi wrthynt a chydweithio.

Yn nes ymlaen eleni, byddwn yn eich diweddaru am y prosiect a datblygiad ein cynllun.

Diolch o galon. Gobeithio y cytunwch fod y wybodaeth a rannwyd yn y cyfarfodydd ymgynghori, a'r crynodeb a geir yn y newyddlen hon, yn ddiddorol a buddiol.

## Ymgynghori gwerthfawr gyda'r gymuned leol

**Ein cenhadaeth yw datgloi potensial ynni adnewyddadwy Cymru,** a chyflwyno buddion i'n cymdeithas, ein hamgylchedd a'n heconomi, i bawb sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol.

**I wneud hynny, rydym yn gweithio yn y lle cyntaf mewn tri lleoliad arfaethedig, sef**

- **Fferm Wynt Clocaenog Dau,** Siroedd Dinbych/Conwy (hyd at 132MW)
- **Fferm Wynt Glyn Cothi** Sir Gaerfyrddin (hyd at 162MW)
- **Fferm Wynt Carreg Wen** Rhondda Cynon Taf (hyd at 108MW)



Mae cyfnod cyntaf y gwaith ymgynghori ynghylch Fferm Wynt Clocaenog Dau bellach wedi dod i ben ac rydym yn falch o fedru rhannu rhai o'r ymatebion dechreuol a'r pynciau a drafodwyd.

Cynhaliwyd tri chyfarfod 'galw heibio' ym mis Hydref yng Nghanolfan Cae Cymro Clawddnewydd a Neuadd yr Eglwys Nantglyn yn Sir Ddinbych, ac yn Ysgol Cerrigydrudion, ym mwrdeistref sirol Conwy.

Roedd aelodau o dîm Trydan ac ymgynghorwyr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol (EIA) wrth law i ateb cwestiynau, casglu sylwadau ac egluro'r cynlluniau dechreuol ar gyfer datblygiad 22 tyrbin a gyhoeddwyd yn ystod haf y llynedd.

I'r rhai na allent ddod i'r cyfarfodydd hyn, gosodwyd arddangosfa rithiol ar wefan Trydan gan wahodd sylwadau am gyfnod cyntaf yr ymgynghoriad ar ffurflen adborth ar-lein, i'w dychwelyd erbyn Dydd Sadwrn 15 Tachwedd 2025.

**Meddai rheolwr prosiect Fferm Wynt Clocaenog Dau, Adam Dempsey:**

*"Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb a'r sylwadau a gawn, ar lafar, mewn e-byst ac ar ein ffurflen ar-lein, o gymorth mawr inni ddatblygu'r cynllun.*

*"Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i adeiladu perthynas â'r gymuned leol drwy ddangos ein cynlluniau dechreuol, yn cynnwys model rhyngweithiol soffistigedig 3D."*

*"Mae'r model rhithiol hwn yn helpu pobl i "weld" sut y bydd y prosiect yn edrych o fewn y tirlun lleol, yn cynnwys yr olygfa o'u tai, ysgolion, busnesau, llwybrau cerdded arferol ac ati, a ninnau wedyn yn cael cyfle i ofyn eu barn a chlywed eu hymateb.*





## Ein ffyrdd o gysylltu â chi

Defnyddiwyd llawer o ddulliau gwahanol er mwyn rhoi cyfle i bawb fynegi barn.

Cyhoeddwyd datganiadau i'r wasg mewn papurau lleol, defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol, di-dâl a thaladwy, fel Facebook ac Instagram, danfonwyd 1,900 copi o'n Newyddlen i gartrefi o fewn y brif ardal ymgynghori, gyrrwyd e-byst i'r rhai a ofynnodd am gael eu diweddaru'n rheolaidd ac anogwyd rhanddeiliaid allweddol fel cynghorwyr a gwleidyddion lleol i rannu gwybodaeth am y prosiect o fewn eu gwahanol rwydweithiau.

Os hoffech dderbyn gwybodaeth reolaidd am y prosiect, e-bostiwch **croeso@clocaenogdau.wales** os gwelwch yn dda.

## Ymgynghori wyneb yn wyneb ac yn rhithiol

Cynhaliwyd tri chyfarfod ymgynghori anffurfiol wyneb yn wyneb, a fynychwyd gan dros 100 o bobl o'r gymuned leol.

**Roedd y cyfarfodydd yn cynnwys:**

- Paneli a mapiau'n dangos y datblygiad arfaethedig
- Model rhyngweithiol digidol 3D yn gosod y datblygiad o fewn y tirlun
- Sgyrsiau un i un gyda thîm y prosiect
- Cyfleoedd i gyflwyno sylwadau llafar ac ysgrifenedig

Hefyd, lansiwyd arddangosfa rithiol ar **7 Hydref** yn dangos holl ddeunydd y prosiect yn rhithiol ar lein.





## Mae ein digwyddiadau wedi cael eu cynnal yn:

- Nantglyn Church House
- Ysgol Cerrigydrudion
- Canolfan Cae Cymro







## Cysylltu ag ysgolion

Rhoddwyd cyfle i bobl ifanc yr ardal weld cynlluniau'r fferm wynt, gyda mwy nag 20 o blant blynyddoedd pump a chwech Ysgol Cerrigydrudion yn mwynhau cyfres o weithgareddau rhyngweithiol hwyliog.

Cafwyd trafodaethau grŵp am y defnydd o ynni yn ein bywyd bob dydd, a'r anifeiliaid sy'n byw yng Nghoedwig Clocaenog, gyda sesiwn y pnawn yn un prysur dros ben.

Dangoswyd fideo fer i'r plant yn cyflwyno cynlluniau ynni glân cwmni Trydan ac roedd cyfle i archwilio model rhyngweithiol o'r fferm wynt arfaethedig.

Cafwyd cwis bywiog i brofi beth a ddysgwyd yn ystod y dydd, gyda'r ysgol a dau ddisgybl yn derbyn tocynnau llyfr i'w gwario yn Siop Elfair.

**Meddai Dr Catrin Ellis Jones, pennaeth ymrwymiad cyhoeddus Trydan:** *"Roedd yn wych cael cyfle i sgwrsio â'r plant a chanfod hyd a lled eu gwybodaeth am ein hamgylchedd ac effeithiau newid hinsawdd a achoswyd gan ddyn.*

*"Roedd rhai o'r disgyblion yn astudio'r Oes Fictoraidd a'r chwyldro diwydiannol. Nodwyd sut yr oedd gwyddonwyr y cyfnod hwnnw, fel Joseph Fourier a John Tyndal, yn dechrau siarad bryd hynny am yr hyn a alwn heddiw yn 'effaith nwyon tŷ gwydr', a sut yr oedd llosgi glo eisoes yn cynyddu lefel y nwyon tŷ gwydr yn yr amgylchedd.*

*"Trafodwyd yr holl ffyrdd y gallwn arbed trydan yn ein bywydau bob dydd, a sut y gellir cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy - mewn gwahanol rannau o Gymru, ac yn lleol. Roedd yn drafodaeth fywiog iawn.*

*"Cyflwynwyd data mewn ffordd apelgar a hawdd ei ddeall, yn arbennig gyda chymorth y model digidol 3D. Gofynnodd y plant lwyth o gwestiynau a sbardunwyd eu chwilfrydedd gan wahanol nodweddion y model – er enghraifft sut y mae tyrbinau yn ymateb i wynt o wahanol gyfeiriadau er mwyn cynhyrchu cyn gymaint â phosibl o drydan.*

*"Roedd y disgyblion yn graff dros ben, a phleser oedd clywed cymaint o sylwadau, syniadau a chwestiynau."*



## Y sylwadau ac ymatebion dechreuol

Rydym yn awyddus iawn i glywed barn arbenigwyr lleol, yn cynnwys trigolion yr ardal a grwpiau cymunedol.


Mae hyn yn ein helpu i ddatblygu prosiect sy'n gorwedd yn esmwyth o fewn yr amgylchedd lleol, gan gynnig cyfleoedd i wella'r cyfoeth ecolegol tra'n creu budd cymdeithasol ac economaidd lleol yr un pryd.

Roedd y ffurflen adborth yn cynnwys blwch ar gyfer sylwadau estynedig gan roi cyfle i randdeiliaid fynegi barn, gwneud sylwadau a holi cwestiynau.

Rydym wedi grwpio'r cwestiynau a'r sylwadau, ac wedi crynhoi ymatebion tebyg i'w gilydd dan nifer o themâu.

**Dyma'r pynciau a godwyd amlaf mewn sgyrsiau un i un ac yn y ffurflenni adborth, ynghyd â'n ymateb ni i'r pethau a ddywedwyd.**

## Fformat cyflwyno sylwadau



## Pwnc: Asesiad o’r effaith amgylcheddol (EIA): cynefinoedd a rhywogaethau naturiol

Mae hon yn elfen ganolog o’r drefn gynllunio er mwyn gwarchod buddiannau planhigion, anifeiliaid ac adar. Gan ein bod wedi holi barn y cyhoedd yn gynnar o fewn y broses, roedd llawer o’r trafodaethau a sylwadau amgylcheddol yn ymwneud â faint o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd:

***“Hoffwn weld adroddiadau am fywyd gwyllt a chynefinoedd byd natur cyn cael fy argyhoeddi fod Trydan yn gwneud ymchwil trylwyr i’r agwedd hon.”***

Rydym yn dal i gasglu’r holl ddata perthnasol a byddwn yn rhannu rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn diweddariadau clir a thryloyw fel rhan o’r drefn ymgynghori cyn cyflwyno cais cynllunio.

Thema boblogaidd arall oedd y niwed posibl i gynefinoedd. Fel y dywedodd un ymatebydd:

***“Dwi’n amheus a ellir codi tyrbinau gwynt heb niweidio rhywogaethau gwarchodedig y goedwig, ac yn benodol y Wiwer Goch a’r Pathew.”***

Bydd arolygon ecolegol ar gyfer pob rhywogaeth warchodedig yn ailgychwyn yn gynnar yn 2026. Ar ôl casglu’r data gwaelodlin (baseline data), byddwn yn edrych ar ddyluniad y cynllun i sicrhau fod y gwahanol rywogaethau, yr ardaloedd magu a’r llwybrau cysylltu pwysig o fewn y goedwig yn cael eu gwarchod rhag niwed.

Byddwn yn edrych ar fesurau amrywiol i wella ansawdd cynefinoedd a llwybrau cyswllt y Wiwer Goch o fewn y goedwig yn ein Cynllun Rheoli Cynefinoedd. Ni allwn fanylu rhagor ar hyn o bryd, ond byddwn yn gweithio gydag ecolegwyr ac arbenigwyr Wiwer Goch, yn cynnwys aelodau o grwpiau lleol, er mwyn gofalu fod ein gwaith gwella cynefinoedd yn cyd-fynd yn briodol ag anghenion y Wiwer Goch.

Roedd cais arall yn holi am adar penodol:

***“Hoffwn weld mwy o sylw i effaith y ffarm wynt newydd ar y Troellwr Mawr (Nightjar) a’r Gwalch Marth (Goshawk), y ddau ohonynt yn adar o bwysigrwydd cenedlaethol.”***

Buom yn cynnal arolygon gwaelodlin o adar magu ac adar ysglyfaethus am fwy na 12 mis ar y safle.

Defnyddir canlyniadau’r arolygon hyn i addasu dyluniadau os oes angen, ac os gwelir fod cynefinoedd pwysig i’r Troellwr Mawr a’r Gwalch Marth o fewn lleoliad arfaethedig yr isadeiledd.






**Wedi trafodaeth fuddiol yn ein cyfarfod ymgynghori anffurfiol, cawsom sgyrsiau pellach gydag Ymddiriedolaeth Gwiwerod Coch Clocaenog gan wrando’n ofalus a derbyn eu sylwadau a’ubarn. Byddwn yn cadw mewn cysylltiad rheolaiddac agored â’r Ymddiriedolaeth wrth ddatblygu’r prosiect ymhellach.**

## Pwnc: Y broses ymgynghori

Rydym yn falch dros ben o'r ymateb i'r broses ymgynghori. Bu'r model digidol 3D yn boblogaidd iawn, derbyniwyd ceisiadau i ymweld â mwy o ysgolion a gofynnwyd inni addasu'r mapiau i ddangos lleoliad y tyrbinau'n fwy clir. Bydd hyn oll yn ein helpu wrth ymgynghori ymhellach â'r gymuned yn y dyfodol.

Un pryder a godwyd yn aml gan rai trigolion lleol, yn gwbl ddealladwy, oedd y modd y bu cwmnïau eraill yn ymgynghori ynghylch cynlluniau ffermydd gwynt blaenorol.

Ni all Trydan Gwyrdd Cymru ateb dros gwmnïau ynni eraill, ond oherwydd ein bod ni'n gweithredu ar ran pobl Cymru, ein gobaith a'n bwriad clir yw ymgynghori mewn ffordd ragorol.

Os dymunwch gynnig syniadau, neu ein helpu i gysylltu'n adeiladol â rhagor o bobl, neu gyflwyno unrhyw awgrym arall er mwyn creu'r cynllun gorau oll, rydym yn awyddus iawn i glywed oddi wrthych.

Os ydych yn rhan o grŵp lleol a fyddai'n hoffi cael siaradwr gwadd i egluro'r cynllun ymhellach, a dechrau trafodaeth am y math o fuddion cymunedol y gallai'r prosiect eu darparu, mae croeso ichi e-bostio **croeso@clocaenogdau.wales.**



## Pwnc: Y datblygiad arfaethedig

Trafodwyd lleoliad ac uchder y tyrbinau yn aml yn y cyfarfodydd ymgynghori a'r ffurflenni adborth. Dyma rai o'r cwestiynau a ofynnwyd:

**"Pam fod rhai tyrbinau yn agos iawn i'r tyrbinau presennol?"**

**"Pam fod y tyrbinau ychwanegol wedi eu gwasgaru dros ardal mor eang o'r goedwig yn hytrach na'u gosod ger y tyrbinau presennol ar ddwyster tebyg i'r rhai a godwyd yn Nhir Mostyn?"**

**"Faint o ynni mae tyrbinau 150m yn ei gynhyrchu o gymharu â thyrbinau 230m?"**

Wrth fodelu ein dyluniad cwmpasu (scoping design) ystyriwyd perfformiad y tyrbinau mewn ffermydd gwynt sydd eisoes yn bodoli. Dechreuodd gwaith pellach i fonitro'r gwynt ar y safle ym mis Chwefror i gael gwell dealltwriaeth o unrhyw effaith a gaiff y tyrbinau arfaethedig ar dyrbinau presennol y goedwig.

Maint y tyrbinau sy'n penderfynu pa mor agos at ei gilydd y gellir eu gosod heb newid patrwm llif y gwynt. Er enghraifft, mae tyrbinau Tir Mostyn yn fach iawn (75m), fel bod modd eu gosod yn nes at ei gilydd.

O ran maint arfaethedig y tyrbinau, y gymhariaeth orau yw Fferm Wynt bresennol Clocaenog lle mae'r uchder i'r brig yn 145m. Mae pob tyrbin yn cynhyrchu 3.6MW. Ar y llaw arall, mae tyrbinau gydag uchder i'r brig o 230m yn cynhyrchu 6MW.

Mater arall a godwyd ynghylch lleoliad y tyrbinau oedd:

**"Mae tyrbin rhif 11 yn rhy agos at gofeb hanesyddol Pincyn Llys."**

Gallwch fod yn dawel eich meddwl ein bod yn adolygu lleoliad y tyrbinau yn barhaus, yn cynnwys trafod datblygiad y prosiect hwn gyda Cadw er mwyn gofalu fod yr holl dyrbinau wedi eu gosod y pellter priodol oddi wrth bob cofeb hanesyddol.

## Pwnc: Hydroleg

***"Mae ein eiddo ni, fel llawer o rai eraill yn yr ardal hon, yn defnyddio dŵr sy'n llifo o ffynhonnau preifat. Pa gamau a gymerir i sicrhau nad effeithir ar ein cyflenwad dŵr trwy gydol oes y prosiect?"***

Gwyddom fod sawl eiddo yn cael eu dŵr o ffynhonnell breifat. Bydd hon yn ystyriaeth allweddol wrth wneud ein gwaith paratoi ac wrth benodi cyflenwyr i adeiladu'r cynllun.

## Pwnc: Tirwedd ac effaith ar yr olygfa

Pwnc arall a godwyd yn aml oedd effaith y prosiect ar yr olygfa:

**"Ni chredaf y dylem ddistrywio harddwch ein tirwedd er mwyn cynhyrchu ein hynni ein hunain ar gyfer Cymru."**

Mae Trydan yn ystyried effaith y datblygiad ar y tirwedd a'r olygfa o fannau allweddol, ac yn chwilio am ffyrdd o leihau unrhyw effeithiau negyddol.

Edrychwch, os gwelwch yn dda, ar ein model digidol 3D o'r cynllun dechreuol, a'r lluniau sy'n dangos sut y byddai'r fferm wynt yn edrych o wahanol gyfeiriadau.

Fe'i gwelir yn: **https://trydanclocaenogdau.wales/how-to-get-involved/**

**"Mae'r tyrbinau arfaethedig yn dalach fyth, a byddant yn sbwylio'r ardal wledig hon."**

Mae topograffi amrywiol y tir yn golygu y bydd yr holl dyrbinau, waeth pa ddatblygiad a weithredir, yn ymddangos tua'r un uchder.

Amlygwyd hyn wrth i'r rhai a fynychodd ein cyfarfodydd anffurfiol ddefnyddio'r model digidol 3D i weld a fyddai unrhyw newid i'w golygfa bresennol.



## Pwnc: Budd cymunedol

**Yn naturiol, roedd llawer iawn o gwestiynau'n holi a all y cynllun ddarparu ynni rhatach i'r gymuned leol.**

Mae rhai datblygwyr yn cynnig Cynlluniau Disgownt Ynni Lleol (Local Energy Discount Schemes). Mae'r cynlluniau yma'n gweithio orau pan gaiff yr arian sydd ar gael ei rannu ymhlith nifer cyfyngedig o drigolion lleol – rhai sy'n byw'n agos i'r fferm wynt mewn ardaloedd diarffordd, tenau eu poblogaeth.


Gyda chymunedau lleol, mae Trydan yn awyddus i archwilio gwahanol opsiynau a fyddai'n cyfrannu at gynaliadwyedd, gwytnwch a ffyniant lleol. Bydd cyfle i siarad mwy am y pwnc hwn yn lleol mewn digwyddiadau ymgynghori pellach yn y dyfodol.

**"Os oes arian yn cael gynnig fel rhan o'r pecyn buddion, ni ddylai'r cyfan fod trwy wahoddiad penagored. Dylid meddwl rhywfaint yn strategol am flaenoriaethau'r gymuned leol, a buddsoddiadau dros y tymor hir."**

Mae arian budd cymunedol fel arfer yn dechrau llifo pan fydd y fferm wynt yn weithredol ac yn danfon ynni i'r grid.

Mae sawl posibilrwydd wrth ystyried sut orau i ddefnyddio cyllid sy'n ymateb i ofynion lleol, ac mae pob ardal yn wahanol.

Byddwn yn llunio cynllun penodol i brosiect Clocaenog Dau, gyda grwpiau a phobl leol yn dweud wrthym pa bethau sy'n bwysig iddyn nhw.




**Hoffem glywed eich syniadau, a gobeithiwn drefnu sgyrsiau gyda grwpiau lleol yn ystod y misoedd nesaf. Cysylltwch, os gwelwch yn dda.**



## Beth fydd yn digwydd nesaf?

Bydd tîm Trydan yn edrych ar yr holl adborth a gafwyd, gan roi sylw arbennig i'r sylwadau penodol a manwl. Gwneir hynny ochr yn ochr â'r corff cynyddol o dystiolaeth yr ydym yn ei gasglu i fireinio'r prosiect. Rhown wybod ichi'n rheolaidd sut mae'r cynllun yn datblygu ar wefan y prosiect a thrwy sianelau eraill.

Byddwn hefyd yn dechrau casglu syniadau am y buddion cymunedol. Fel a nodwyd uchod, cofiwch gysylltu â ni os ydych yn rhan o grŵp lleol, fel clwb ieuenctid, Merched y Wawr, grŵp cerdded neu, er enghraifft, os ydych yn weithgar yn cefnogi ysgolion lleol neu adnoddau a gwasanaethau lleol fel adeiladau neu gynlluniau trafnidiaeth cymunedol.

Rydym yn awyddus hefyd i gytuno dyddiad ar gyfer y broses ymgynghori ffurfiol. Bydd hwn yn gyfle i drafod y prosiect yn ei ffurf ddiweddaraf ac ystyried ymhellach y pwyntiau allweddol a godwyd gan y cyhoedd yn ymgynghoriad hydref y llynedd, ochr yn ochr ag ymateb y cyrff statudol y gofynnwyd am eu barn.

**Bydd Tîm Trydan yn y digwyddiadau canlynol:**

**GradCon Wrecsam:**
31 Mawrth

**Eisteddfod yr Urdd:**
23-29 Mai
(Trydan yn bresennol 28-29 Mai)

**Eisteddfod Genedlaethol:**
1-8 Awst
(Trydan yn bresennol 6-7 Awst)



**Dr Catrin Ellis Jones**
Pennaeth Ymrwymiad Cyhoeddus

**Meddai Dr Catrin Ellis Jones, Pennaeth Ymrwymiad Cyhoeddus Trydan: "Mae barn pawb yn bwysig a chyhoeddwn y newyddion diweddaraf am y prosiect yn rheolaidd rhwng rŵan a'r cyfarfodydd nesaf.**

Diolch yn fawr iawn i bawb a fynegodd ddiddordeb yn y cynllun, a ddaeth i'n cyfarfodydd ac a gyflwynodd sylwadau am y prosiect

"Gobeithio y bydd pawb a ddechreuodd ar y daith yn aros gyda ni ar hyd y siwrne. Ac mae croeso i eraill ymuno â'r broses ymgynghori ar unrhyw adeg.

- **2027** – Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (PAC) a chyflwyno cais cynllunio
- **Diwedd 2027 / Dechrau 2028** – Archwilio'r cais
- **Canol 2028** – Gweinidogion Cymru yn penderfynu ar y cais
- **2028/2029** – Dylunio manwl a chaffael
- **Ar ôl 2030** – Gwaith adeiladu
- **Ar ôl 2030** – Cynhyrchu ynni glân am 35 mlynedd

Cliciwch yma i fynd i'n gwefan

Cliciwch yma i weld ein arddangosfa rithiol

Mae Trydan Gwyrdd Cymru yn eiddo i **Lywodraeth Cymru**
Trydan Gwyrdd Cymru is owned by the **Welsh Government**